

Adolygiad o'r Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol

Adennill costau buddsoddi mewn ehangu rhwydwaith

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 9 Awst 2017

Dyddiad Olaf ar gyfer Derbyn Ymatebion: 27 Medi 2017

Gair am y ddogfen hon

Ar 31 Mawrth 2017 roedden ni wedi cyhoeddi ymgynghoriad ynghylch ein cynigion Adolygiad o'r Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol ar gyfer rheoleiddio'r farchnad yn y dyfodol i ddarparu gwasanaethau mynediad lleol a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau rhynggrwyd band eang a ffôn (gan gynnwys band eang cyflym iawn) i ddefnyddwyr preswyl a busnes. Yn yr ymgynghoriad hwn roedden ni hefyd wedi nodi ein cynigion ar gyfer rheolaethau ffioedd ar gyfer rhai gwasanaethau cyfanwerthu.

Mae BT a'r Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi cyhoeddi cynnig yn ddiweddar gan BT i gyflwyno o'i wirfodd fand eang cyffredinol 10 Mbit yr eiliad o leiaf ar gyfer y wlad gyfan, a bron i 99 y cant o eiddo'r DU erbyn diwedd 2020.

Nid ydy'r Llywodraeth wedi penderfynu eto a ydyw am dderbyn cynnig BT, ond petai'n gwneud hynny byddem yn disgwyl i BT ymrwymo i gytundeb a fyddai'n ymrwymiad cyfreithiol gyda'r Llywodraeth.

Mae'r ddogfen hon yn nodi sut rydyn ni nawr yn cynnig diwygio ein cynigion rheolaeth ffioedd yng ngoleuni'r costau perthnasol ychwanegol y byddai BT yn eu cael, petai BT yn ymrwymo i gytundeb clir a chyhoeddus gyda'r Llywodraeth yn ymrwymo BT i fuddsoddi mewn band eang cyffredinol.

27 Medi 2017 ydy'r dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn.

Byddwn yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad pellach hwn cyn llunio ein casgliadau terfynol a chyhoeddi ein datganiad ar yr adolygiad yn gynnar yn ystod 2018.

Cynnwys

Adran

1. Crynodeb Gweithredol

3-6

1. Crynodeb Gweithredol

Crynodeb o'r cynigion

- 1.1 Mae gwasanaethau ffôn sefydlog a band eang fel arfer yn dibynnu ar gysylltiad sefydlog o'r gyfnewidfa ffôn leol neu'r cabinet ar y stryd i gartref neu fusnes. Dim ond un neu ddau o rwydweithiau ffisegol sy'n darparu hyn yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Y gwasanaethau cyfanwerthol sy'n cyflenwi'r cysylltiad hwn sy'n ffurfio'r farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol (WLA).
- 1.2 Ar 31 Mawrth 2017, roedden ni wedi cyhoeddi dogfennau'n nodi ein cynigion ymgynghori ar gyfer rheoleiddio'r farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol o 1 Ebrill 2018 ymlaen.¹ Roedd hyn yn cynnwys cynigion ar gyfer rheolaethau ffioedd ar gyfer Dadfwndelu Dolen Leol (sy'n cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau band eang safonol ar rwydwaith copr Openreach²) a gwasanaethau cyflym iawn cyfanwerthol (sy'n cael eu galw yn Rhith-Fynediad Lleol wedi'i Ddadfwndelu) a ddarperir gan Openreach.
- 1.3 Yn ein hymgyngoriad, roedden ni'n nodi ein safbwynt na ddylai rheoleiddio'r farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol rwystro cyflwyno masnachol a fyddai'n darparu band eang i ardaloedd sy'n anoddach eu cyrraedd. Yn benodol, roedden ni'n nodi ein safbwynt y dylid gallu adennill costau a geir yn effeithlon wrth ehangu rhwydwaith sy'n darparu gwasanaethau band eang gwell i gwsmeriaid ac y dylid ystyried y costau hynny wrth osod rheolaethau ffioedd.
- 1.4 Adeg ein hymgyngoriad ynghylch Mynediad Lleol Cyfanwerthol ym mis Mawrth 2017 nid oedd yr wybodaeth angenrheidiol gennym ynghylch ehangu'r rhwydwaith, ond wedi dweud hynny, os bydd gwybodaeth berthnasol am gyflwyno ymrwymedig ar gael, byddem yn ystyried unrhyw oblygiadau ar gyfer y rheolaethau ffioedd a gynigir yn yr adolygiad o Fynediad Lleol Cyfanwerthol.³
- 1.5 Ar 30 Gorffennaf, cyhoeddodd yr Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ei bod wedi cael cynnig gan BT i gyflwyno o'i wirfodd fand eang cyffredinol 10 Mbit yr eiliad o leiaf ar gyfer y wlad gyfan, erbyn diwedd 2020.⁴
- 1.6 Os bydd cytundeb clir a chyhoeddus rhwng BT a'r Llywodraeth yn ymrwymo BT i fuddsoddi i ehangu'r rhwydwaith i gyflawni ei gynnis, rydyn ni'n cynnig caniatáu i BT adennill costau effeithlon perthnasol y buddsoddiad hwn drwy godi'r ffioedd ar gyfer llinellau band eang a gyflenwir yn y farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol. Ar sail y dadansoddiad a nodir yn y ddogfen ymgynghori hon, o dan ein cynigion byddai'r symiau canlynol yn cael eu cynnwys yn y rheolaethau ffioedd perthnasol.

¹ Mae'r dogfennau ymgynghori perthnasol ar gael yma: <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-1/wholesale-local-access-market-review>

² Mae Openreach yn darparu gwasanaethau sy'n ymwneud â'r rhwydwaith mynediad.

³ Paragraffau 1.29-1.31

⁴ <https://www.gov.uk/government/news/universal-broadband-to-reach-every-part-of-the-uk>

Tabl 1.1: Cynigion ar gyfer ffi ychwanegol

Ystod a (rhagamcan canol)	Cynigion ar gyfer prisiau blynyddol (£- nominal)		
	2018/19	2019/20	2020/21
Cost ychwanegol ar gyfer ehangu'r rhwydwaith	£0.23 i £1.57 (£0.39)	£0.71 i £3.80 (£1.19)	£1.14 i £5.89 (£1.93)

Cynnig BT ar gyfer darparu band eang cyffredinol

- 1.7 Mae'r cyhoeddiad gan yr Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn nodi y byddai cynnig BT yn cyflawni:
- Cyflymder llwytho i lawr o 10Mbit yr eiliad a chyflymder llwytho i fyny o 1Mbit yr eiliad;
 - Gofynion o ran ansawdd i leihau'r oedi rhwng ymryson a diffyg ymateb;
 - Mae BT yn cynnig defnyddio cymysgedd o dechnolegau i gyflawni hyn.
 - Byddai darpariaeth sefydlog ar gael i gynifer â phosibl o eiddo, gyda darpariaeth sefydlog yn cyrraedd 99% erbyn diwedd 2020.
 - Bydd di-wifr sefydlog ar alwad a lloeren yn cael eu defnyddio yng ngweddill y wlad, gyda lloeren. Mae disgwyl i nifer yr eiddo a fydd ond â lloeren fel opsiwn yn 0.3% erbyn diwedd 2022.
- 1.8 Bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda BT i ddatblygu ei gynigion dros y misoedd nesaf. Mae'r Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon hefyd wedi cyhoeddi ymgynghoriad sy'n gofyn am safbwyntiau ynghylch dylunio Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol rheoleiddio. Y dyddiad olaf ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ydy 9 Hydref 2017.
- 1.9 Bydd y Llywodraeth nawr yn ystyried cynnig BT ochr yn ochr ag ymgynghoriad ynghylch Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol rheoleiddio. Os bydd y Llywodraeth yn penderfynu bwrw ymlaen â chynnig BT, byddai BT yn cael costau sy'n berthnasol i'r rheolaeth ffioedd Mynediad Lleol Cyfanwerthol.
- 1.10 Er mwyn cyflawni ei ymrwymiad i gyrraedd darpariaeth o 99%, mae BT yn cynnig ymestyn darpariaeth ei rwydwaith mynediad ffibr, a darparu mynediad i'r cyflwyno newydd hwn i ddarparwyr telegyfathrebiadau drwy wasanaethau a ddarperir yn y farchnad mynediad lleol cyfanwerthol.
- 1.11 Oherwydd bydd y costau cyfalaf sy'n gysylltiedig ag ehangu'r rhwydwaith hwn a'r gwasanaethau a ddarperir yn yr ardal fwy yn y cyfnod sy'n berthnasol i'n cynigion adolygiad o'r farchnad, rydyn ni'n credu ei bod hi'n briodol adlewyrchu'r costau hyn yn y rheolaethau ffioedd Mynediad Lleol Cyfanwerthol er mwyn rhoi'r cyfle i BT adennill y costau a gaiff yn effeithlon.
- 1.12 Mae BT hefyd yn cynnig darparu o leiaf rhan o'i ymrwymiad drwy ddefnyddio technolegau di-wifr sefydlog a lloeren. Nid ydym yn credu bod costau'r technolegau hyn yn berthnasol i'r rheolaethau ffioedd.
- 1.13 Yn ein hadroddiad o fis Rhagfyr 2016 a oedd yn rhoi cyngor technegol i Lywodraeth y DU ar fand eang cyffredinol ('Yr Adroddiad Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol') roeddem

yn amcangyfrif bod tua 2.6 miliwn o gartrefi a busnesau na allent gael band eang, a gyda'r fanyleb 10 Mbit yr eiliad a ragwelir nawr yng nghynnig BT, a gyda chyflwyno parhaus y byddai hyn yn disgyn i oddeutu 1.8 miliwn erbyn diwedd 2017 ac i oddeutu 600,000 erbyn canol yr 2020au.⁵ Gyda data lefel eiddo newydd rydyn ni nawr yn amcangyfrif gyda chyflwyno parhaus yn fasnachol ac wedi'i noddi gan y wladwriaeth o'r rhaglenni presennol, byddai nifer y cartrefi a busnesau na fyddent yn gallu cael y fanyleb 10 Mbit yr eiliad hwn erbyn mis Mawrth 2021 oddeutu 785,000.

- 1.14 Mae'n bosibl y gall cynlluniau band eang i'r dyfodol sydd wedi cael eu cynllunio gan Weinyddiaethau Datganoledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon sydd wedi'u hanelu at gynyddu cyfran y boblogaeth sydd â mynediad at fand eang cyflym iawn a gwibgyswllt, leihau nifer y cartrefi a busnesau nad ydynt yn gallu cael 10 Mbit yr eiliad ymhellach. Rydyn ni'n bwriadu trafod y cynlluniau hyn â'r Gweinyddiaethau Datganoledig a diweddarau ein dadansoddiad â'r wybodaeth hon ac unrhyw wybodaeth newydd ar gyfer y penderfyniad terfynol yn gynnar yn ystod 2018.
- 1.15 Yn unol â chynnig BT rydyn ni wedi amcangyfrif y cymysgedd o dechnolegau a fyddai'n darparu, am y gost isaf, y fanyleb 10 Mbit yr eiliad drwy wasanaethau Mynediad Lleol Cyfanwerthol i bron i 99% o gartrefi a busnesau'r DU, a'r gost gysylltiedig ym mhob blwyddyn o'r rheolaeth ffioedd arfaethedig.

Yr effaith ar reolaethau ffioedd Mynediad Lleol Cyfanwerthol arfaethedig

- 1.16 Rydyn ni'n cynnig y dylid adennill y costau ar gyfer y cyflwyno hyn (hy heb gynnwys y rheini ar gyfer di-wifr sefydlog a lloeren, am y rhesymau a eglurir uchod) ar draws yr holl linellau band eang cyfanwerthol a ddarperir yn y farchnad mynediad lleol cyfanwerthol gan BT⁶ yn genedlaethol.
- 1.17 Ein dull gweithredu arfaethedig ydy sicrhau bod y costau sy'n ymwneud ag ehangu rhwydwaith y BBC yn cael eu hadennill unwaith yn unig o bob llinell band eang (gan gynnwys llinellau band eang Openreach nad ydynt yn destun rheolaeth ffioedd). Er mwyn rhoi hyn ar waith rydyn ni'n cynnig newid strwythur y rheolaethau ffioedd a gynigiwyd yn ein Hymgyngoriadau Mynediad Lleol Cyfanwerthol ym mis Mawrth 2017. Yn yr ymgynghoriad hwnnw roedden ni wedi cynnig codi ffi rheolaeth:
- Cyfleuster Llwybr Metalig (y math o LLU a ddefnyddir gan ddarparwr telegyfathrebiadau i gynnig gwasanaethau band eang a llais dros y llinell i'w gwsmeriaid); a
 - Mynediad Ether-rwyd Generig 40/10 (y cynnyrch VULA sy'n darparu hyd at 40 Mbit yr eiliad i lawr a hyd at 10 Mbit yr eiliad i fyny ac sy'n cael ei ddefnyddio gan ddarparwyr telegyfathrebiadau i gynnig gwasanaethau cyflym iawn).
- 1.18 Rydyn ni'n cynnig newid yr offeryn cyfreithiol er mwyn cael rheolaethau ffioedd ar wahân ar gyfer rhent blynyddol Mynediad Ether-rwyd Generig 40/10 pan (i) gaiff ei brynu gyda

⁵ Ofcom, Rhagfyr 2016. Sicrhau cysylltiad band eang teilwng i bawb.

https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0028/95581/final-report.pdf

⁶ Mae hyn yn cynnwys llinellau a ddarperir gan BT yng Ngogledd Iwerddon lle nad yw Openreach yn gweithredu a llinellau a ddarperir gan Openreach yng ngweddill y DU.

MPF a (ii) pan na chaiff ei brynu gyda MPF. O dan ein cynigion byddai'r un lefel o gostau ychwanegol felly'n cael ei hychwanegu at y rheolaethau ffioedd ar gyfer llinellau band eang sy'n defnyddio MPF yn unig, MPF+GEA, a WLR⁷+GEA.

- 1.19 Byddai'r newidiadau arfaethedig hyn i'n cynigion rheolaeth ffioedd ond yn cael eu gweithredu petai BT yn ymrwymo i gytundeb clir a chyhoeddus gyda'r Llywodraeth yn ymrwymo BT i fuddsoddi mewn band eang cyffredinol.

Y camau nesaf

- 1.20 Rydyn ni'n gofyn am sylwadau gan randdeiliaid ynghylch y cynigion sydd yn yr ymgynghoriad hwn, gan gynnwys y ffordd rydyn ni'n cynnig ar gyfer gweithredu, ac effaith y cynigion hyn ar ein cynigion a oedd wedi'u nodi ym Ymgynghoriad mis Mawrth 2017 am Fynediad Lleol Cyfanwerthol. Y dyddiad olaf ar gyfer ymateb yw 27 Medi 2017.
- 1.21 Mae'r cynigion sydd wedi'u nodi yn yr ymgynghoriad hwn yn rhan o'n cynigion cyffredinol ar gyfer y farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol. Ar hyn o bryd nid ydym wedi gwneud unrhyw benderfyniad mewn perthynas â'r cynigion a oedd wedi'u nodi yn ein Hymgyngoriad Mynediad Lleol Cyfanwerthol ym mis Mawrth 2017. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a byddwn yn eu pwysu a'u mesur yn ein penderfyniad terfynol. Felly rydyn ni'n gofyn am sylwadau gan randdeiliaid ynghylch y cynigion sydd yn y ddogfen hon a'u heffaith ar ein cynigion Mynediad Lleol Cyfanwerthol mis Mawrth 2017 ac nid ar y cynigion ehangach sydd wedi'u nodi yn ymgynghoriad Mynediad Lleol Cyfanwerthol mis Mawrth 2017.
- 1.22 Rydym yn disgwyl y byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniad terfynol mewn datganiad ddechrau 2018, gyda mesurau newydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2018. Bydd y datganiad yn nodi'r marchnadoedd perthnasol, ein penderfyniadau ynghylch pŵer sylweddol yn y farchnad ac, os yw'n berthnasol, unrhyw atebion – gan gynnwys sut mae Ofcom yn penderfynu ystyried unrhyw gostau perthnasol a gaiff BT o ganlyniad i gytundeb clir a chyhoeddus sy'n ymrwymo BT i gyflwyno ychwanegol.

⁷ WLR: Rhentu Llinell Cyfanwerthol.